# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd y Bynea**

# Atodiad A

## Rhestr o’r rhai a ymatebodd i’r Ddogfen Ymgynghori

**<u>Ysgol Gynradd y Bynea – rhestr o’r sylwadau a ddaeth i law</u>**

**Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law**

# Atodiad B

**Crynodeb o’r sylwadau a ddaeth i law ar ôl i’r Ddogfen Ymgynghori gael ei chyhoeddi ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol**

# Atodiad C

## YMATEB ESTYN I'R DDOGFEN YMGYNGHORI

**Ymateb Estyn i'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Bynea o 4 – 11 i 3 – 11**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol y Bynea o 4 – 11 i 3 - 11.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynigiwr wedi nodi'n glir fuddion y cynnig wrth ymdrin â mater hwyluso pontio effeithiol i'r ysgol o ddarpariaeth Dechrau'n Deg y Bynea.

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a buddion**

Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig, sef sicrhau bod disgyblion yn pontio'n ddi-dor o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd i'r ddarpariaeth meithrin. Ar hyn o bryd mae Dechrau'n Deg yn darparu ar gyfer plant 2-3 oed a 4-11 oed yw ystod oedran yr ysgol ar hyn o bryd. Felly mae bwlch yn y ddarpariaeth yn yr ysgol i blant rhwng 3 a 4 oed.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i fanteision cymharol y cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi unrhyw anfanteision na sut mae'n darparu ar gyfer y plant hyn ar hyn o bryd ac o'r herwydd nid yw wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r effaith ar unrhyw ddarpariaeth arall. Er enghraifft, nid yw'r cynigiwr wedi ystyried unrhyw risg bosibl i'r Cylch Meithrin yng Nghanolfan Plant Integredig Llwynhendy sydd o fewn milltir i Ysgol y Bynea. Mae'r cynigiwr wedi ystyried y risg y bydd y cynigion yn cael effaith ar ysgolion eraill yn yr ardal oherwydd nifer y plant sy'n mynd i ysgolion cyfagos. Mae'r

data’n dangos bod gormod o blant ar hyn o bryd mewn ysgolion eraill yn yr ardal o amgylch a bod gan Ysgol y Bynea ddigon o leoedd gwag. Mae’r cynigiwr wedi dangos mewn modd addas y bydd y cynnig yn arwain at ostyngiad bach yn nifer y lleoedd gwag sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Nid yw’r cynigiwr wedi dangos ei fod wedi ystyried dewisiadau eraill ar wahân i’r cynnig presennol hwn.

Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr, sy’n debygol o fod yn gyfyngedig. Mae’n bwriadu cefnogi teithio rhwng y cartref a’r ysgol yn unol â pholisi’r cyngor ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol.

Mae’r cynigiwr wedi cwblhau asesiad addas o’r effaith ar degwch a chydraddoldeb sy’n ystyried yn glir beth fyddai effaith y cynigion ar ddisgyblion sydd â’r nodweddion gwarchodedig. Mae’r asesiad yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith gadarnhaol y cynnig hwn i ddarparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 4 oed. Mae’r asesiad hwn hefyd yn ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg ac yn dod i’r casgliad mewn modd rhesymol nad oes unrhyw effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Nid yw'r cynigiwr wedi darparu unrhyw ddata ar berfformiad presennol yr ysgol ac eithrio bod yr ysgol ar hyn o bryd yng ngrŵp safonau 3 o ran y categorïau cenedlaethol. Mae’r consortiwm lleol wedi rhoi’r ysgol yn y categori cefnogaeth melyn sy’n dangos bod yr ysgol yn gwybod beth mae’n ei wneud yn dda a beth mae angen iddi ei wella. Mae’r cynigiwr hefyd wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau arolygiad diweddaraf Estyn ar Ysgol y Bynea. Nid yw’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i’r effaith ar ddeilliannau nac arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae’r cynigiwr yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu’r disgyblion. Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith debygol y cynigion o ran sicrhau y darperir y cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r cynigiwr yn credu y byddai’r cynnig yn gwella’r amgylchedd a phrofiad dysgu ac y byddai’n darparu Cyfnod Sylfaen mwy cydlynus i ddysgwyr trwy waredu’r cyfnod pontio rhwng y meithrin a’r derbyn. Mae hefyd wedi rhoi ystyriaeth addas i debygrwydd pontio mwy effeithiol rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i gyflwr yr adeilad ar gyfer y cynnig ond nid yw wedi nodi sut y rhoddir lle i’r ddarpariaeth newydd yn yr ysgol.

Mae’r cynigiwr wedi ystyried mewn modd addas na fyddai’r cynnig yn cael effaith ar y ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol i Estyn**

**Nid yw'r cynigiwr wedi darparu unrhyw ddata ar berfformiad presennol yr ysgol ac eithrio bod yr ysgol ar hyn o bryd yng ngrŵp safonau 3 o ran y categorïau cenedlaethol. Mae'r consortiwm lleol wedi rhoi'r ysgol yn y categori cefnogaeth melyn sy'n dangos bod yr ysgol yn gwybod beth mae'n ei wneud yn dda a beth mae angen iddi ei wella. Mae'r cynigiwr hefyd wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau arolygiad diweddaraf Estyn ar Ysgol y Bynea. Nid yw'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i'r effaith ar ddeilliannau nac arweinyddiaeth yn yr ysgol.**

Bydd cynnwys y cynnig yn atgyfnerthu a gwella'r bartneriaeth bresennol mewn modd effeithiol ac ymarferol. Bydd yr holl bartneriaid yn cael budd o haenau ychwanegol cydweithredu a fydd yn bodoli i gynorthwyo ag anghenion dysgwyr unigol o dair oed ymlaen. Bydd effaith fuddiol a chynnydd y fath gydweithredu'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd partneriaeth gyswllt.

# Atodiad D

## Ymgynghoriad â'r disgyblion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2016

gan

Mrs Mari Owen

Cynghorydd Cyswllt Her

Cyngor Sir Caerfyrddin

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gwrando ar 'Lais y Dysgwr'

**Ysgol – Bynea**

**Dyddiad: - 3 Chwefror 2016**

**Cynhaliwyd y sesiwn gan Mari Owen**

**Cyfwelwyd â Chyngor yr Ysgol**

| **1. Hoffech chi fod yn rhan o ysgol fwy / ysgol sydd â mwy o ddisgyblion?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Roedd y disgyblion yn meddwl ei bod yn syniad da croesawu disgyblion newydd 3 oed i'r ysgol a'i gwneud yn ysgol fwy. |

| **2. Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i'r ysgol ddod yn ysgol 3-11?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Byddai gwneud Bynea yn ysgol 3 – 11 yn golygu mwy o amser dysgu i ddisgyblion ac felly byddai'n syniad da.<br>• Mae 'Dechrau'n Deg' i blant 2-3 oed ar safle'r ysgol eisoes ac felly byddai dosbarth meithrin i blant 3 oed yn gwneud synnwyr. |

| **3. Beth fyddai manteision ysgol 3 – 11? Beth fyddech chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Byddai'r disgyblion yn edrych ymlaen at 'ddysgu lot'!<br>• Byddai gadael i blant 3 oed ddod i Ysgol y Bynea yn caniatáu i rieni fynd i siopa neu i'r gwaith.<br>• Fyddai rhieni ddim yn gorfod poeni am ddod o hyd i le mewn meithrinfa i'w plant, gallen nhw ddod i Ysgol y Bynea<br>• Byddai bod yn ysgol 3 – 11 yn gwneud yn siŵr na fyddai plant bach yn mynd i ysgolion eraill yn lle Bynea. |

| **4. Oes unrhyw anfanteision? Oes unrhyw beth y byddech chi'n poeni amdano?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Does dim anfanteision<br>• Dyw'r disgyblion ddim yn poeni am fod mewn ysgol 3 – 11 |